# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 231(v3)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i Ethol Aelodau i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (5 munud)

**NDM7157** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

Huw Irranca-Davies (Llafur Cymru), Delyth Jewell (Plaid Cymru), a David Rowlands (Plaid Brexit) yn aelodau o'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

## 5 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-19

(15 munud)

**NDM7148** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-19 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Medi 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 6 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-19

(15 munud)

**NDM7149** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-19 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 19 Medi 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Seilwaith Diwydiannol Hanesyddol

(60 munud)

**NDM7143** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhwydwaith cyfoethog ac amrywiol o seilwaith diwydiannol hanesyddol ledled Cymru.

2. Yn nodi'r potensial o ran yr economi, adfywio a thrafnidiaeth integredig o ail-agor hen linellau rheilffordd a thwneli segur ledled Cymru.

3. Yn cydnabod yr heriau ymarferol ac ariannol o ddod â seilwaith o'r fath yn ôl i ddefnydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i anelu at gael perchenogaeth ar seilwaith o'r fath a fyddai'n helpu i chwilio am gyfleoedd ariannu.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i chwarae eu rhan wrth archwilio'r cyfleoedd ymarferol ar gyfer ailagor seilwaith o'r fath ledled Cymru.

**Cyd-gyflwynwyr**
Leanne Wood (Rhondda)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Deintyddiaeth yng Nghymru

(30 munud)

**NDM7150** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Dechrau Ffres: Ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2019.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2019.

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Cefnogi a Hybu'r Gymraeg

(60 munud)

**NDM7151** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Cefnogi a hybu'r Gymraeg a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Medi 2019.

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Canlyniadau TGAU a Safon Uwch

(60 munud)

**NDM7153** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canlyniadau TGAU a safon uwch yr haf hwn yng Nghymru.

2. Yn gresynu bod canlyniadau TGAU A*-C haf 2019 yn waeth na chanlyniadau haf 2007.

3. Yn gresynu ymhellach at y gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n sicrhau graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, mathemateg a Chymraeg ail iaith.

4. Yn nodi bod ymchwil Llywodraeth Cymru wedi canfod bod perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol ar gyfer blynyddoedd 4-9 wedi dirywio.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ei methiant i wella cyrhaeddiad TGAU a safon uwch yn sylweddol yng Nghymru ac ymddiheuro i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion am eu siomi.

Llywodraeth Cymru/Ystadegau Cymru, Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed mewn pynciau craidd, 7 Awst 2019

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ar ôl pwynt 1, dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn llongyfarch disgyblion, athrawon a staff ysgolion am eu gwaith caled ac am set gref o ganlyniadau.

Yn croesawu:

a) bod canlyniadau Safon Uwch yr haf hwn wedi parhau i fod ar y lefel uchaf yn eu hanes;

b) bod Cymru wedi gwella ei safle o ran Safon Uwch, mewn cymhariaeth â rhanbarthau Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar gyfer pob gradd ac wedi'i graddio'n gyntaf ar gyfer A* am y tro cyntaf erioed;

c) bod y canlyniadau TGAU yn gyffredinol wedi dangos gwelliant yr haf hwn;

d) bod cynnydd o dros 50 y cant yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU gwyddoniaeth ers 2016, a bod cynnydd eleni yng nghanrannau'r disgyblion sy'n ennill graddau A*-A ac A*-C mewn pynciau gwyddonol;

e) bod nifer y disgyblion sy'n cael graddau A*-C yn y cwrs llawn Cymraeg fel Ail Iaith wedi cynyddu 12.5 y cant;

f) bod nifer y disgyblion a safodd TGAU Llenyddiaeth Saesneg wedi cynyddu 22.8 y cant, a bod 2,800 yn rhagor wedi ennill graddau A*-C o gymharu â 2018.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn credu nad oes modd gwneud cymariaethau ystyrlon gyda chanlyniadau TGAU a safon uwch blynyddoedd blaenorol am nifer o resymau.

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 4 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi canfyddiadau Estyn fod disgyblion sy'n mynychu hanner yr ysgolion uwchradd yng Nghymru yn methu â chyrraedd eu llawn botensial erbyn yr amser iddynt adael yr ysgol.

Yn credu fod y berthynas rhwng disgybl ac athro yn allweddol i gyrhaeddiad academaidd a bod yn rhaid ariannu ysgolion yn ddigonol er mwyn codi safonau.

Yn galw am wella amodau gwaith athrawon, gan ddileu biwrocratiaeth ac ymyrraeth diangen, er mwyn cryfhau cyflawniad academaidd.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol i'n hysgolion ac i symud gwariant tuag at wasanaethau ataliol yn ei chyllideb nesaf, er mwyn creu'r amodau i'n disgyblion a'n hathrawon lwyddo.

Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2017-2018

**Gwelliant 4 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ym mhwynt 5, dileu "i gydnabod ei methiant i wella cyrhaeddiad TGAU a safon uwch yn sylweddol yng Nghymru ac ymddiheuro i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion am eu siomi" a rhoi yn ei le "i ymddiheuro nad yw'r gyfundrefn addysg bresennol yn caniatáu i hanner disgyblion ysgol Cymru gyrraedd eu llawn botensial".

**Gwelliant 5 - Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod dysgwyr TGAU a safon uwch Cymru yn cael eu niweidio gan newidiadau diweddar sy'n glastwreiddio atebolrwydd ysgolion ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthdroi'r duedd hon.

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7152** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Gofalu am gartrefi gofal: sut y gallem wneud mwy i ofalu am gartrefi gofal yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Hydref 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25/09/2019 i'w hateb ar 02/10/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

1 OAQ54424

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

2 OAQ54430

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i helpu twf busnesau bach yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

3 OAQ54419

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno trenau newydd ar gyfer y Rhondda fel rhan o'r fasnachfraint reilffyrdd newydd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

4 OAQ54423

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cymru am wella mynediad i'r anabl i'r rheilffyrdd yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OAQ54410

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch manteisio'n llawn ar adeiladu adrannau 5 a 6 o ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OAQ54404

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau bach yn Sir Benfro?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

7 OAQ54441

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i ehangu amlder y gwasanaethau rheilffordd ar lein Maesteg?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

8 OAQ54414

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwelliannau arfaethedig i'r seilwaith trafnidiaeth yng nghanolbarth Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

9 OAQ54412

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau bysiau yng nghymoedd de Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

10 OAQ54432

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddarparu datganiad am wasanaethau rheilffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

11 OAQ54435

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cymru o ran datblygu gorsaf fysiau newydd Caerdydd?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12 OAQ54402

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn creu swyddi yn ne-ddwyrain Cymru?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

1 OAQ54438

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am faint o fusnesau sydd wedi ceisio cymorth a chyngor gan borth Brexit Llywodraeth Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OAQ54436

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion yr Undeb Ewropeaidd ynghylch Brexit?

**Hefin David** *Caerffili*

3 OAQ54426

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch Brexit yn dilyn dyfarniad diweddar Goruchaf Lys y DU ynghylch addoediad?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

4 OAQ54420

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Brexit heb gytundeb ar sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ54434

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r gwrthbleidiau mewn perthynas â safbwynt Llywodraeth Cymru ar Brexit?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OAQ54405

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gynlluniau paratoadau Brexit Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ54417

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o waith cynllunio awdurdodau lleol a pharatoadau ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

8 OAQ54443

**(w)**

Pa drafodaeth y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei chynnal gyda Llywodraeth y DU ynglyn ag amddiffyn buddiannau Cymru yn y broses Brexit wedi 31 Hydref 2019?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

9 OAQ54422

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynnal ail refferendwm ar Brexit?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

10 OAQ54444

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ganlyniad achos addoediad y Goruchaf Lys yn dilyn y dyfarniad a basiwyd ar 24 Medi 2019?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

11 OAQ54440

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer dewis amgen i'r trefniadau wrth gefn, 'backstop', ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

12 OAQ54409

**(e)**

Pa baratoadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE?